Bellach a hanner tymor ar y trothwy braf yw cael datgan bod y plant newydd wedi setlo'n braf yn ein mysg ac yn gwbl gartrefol. Croeso cynnes i Ffion Jones, Ruth Evans, Naomi Wedge, William Parry, Ben Shaw, Paul Picken, Daniel Wells, Craig Marshall, Kevin Phillips, Richard Kitchen ac Alex Phillips.

Eisoes bu'r bechgyn yn chwarae pêl-droed yng nghystadlaethau Tarian Waunfawr ac yng nghwpan y R.A.F.A. Bydd gemau cynghrair y bêl-droed a'r hoci yn dechrau cyn hir hefyd.

Bu nifer o'r plant yn rhedeg yn y cystadlaethau a gynhaliwyd gan Glwb Athletau Aberystwyth yn ddiweddar a chafwyd ymdrech arbennig o dda ganddynt, gyda Amy Davies yn fuddugol yn y ras i ferched dan 11 oed.

Bu cwmni Theatr Scallywag ar ymweliad â'r ysgol ddechrau'r mis a chafwyd perfformiad cofiadwy y tro hwn eto. Pwysigrwydd cadw'r amgylchfyd rhag llygredd oedd prif neges y sioe ac eisioes mae'r plant wedi cychwyn ar y gwaith o gasglu deunydd ar gyfer ei ail gynhyrchu.

Erbyn hyn mae ein gofalwr, Mr Andrew Kitchen, wedi cychwyn ar swydd newydd yn Cirencester. Rydym yn diolch o galon iddo am ei waith tra fu'n ofalwr a glanhawr ac yn dymuno pob hapusrwydd a llwyddiant iddo ef a'i deulu yn eu cynefin newydd. Croesawn Mrs Shaw i'r swydd gan obeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

Cychwynwyd ar weithgareddau'r Urdd a chyfle i'r babanod gael blas ar bethau fydd y cyfarfodydd cyntaf tra caiff y plant iau gyfle yn ail hanner y tymor.